CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

473/58

**HANES – HI3**

**UNED 3**

**ASTUDIAETH FANWL 8**

**UNO'R EIDAL, tua 1856-1871**

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn yn Adran A ac **un** cwestiwn yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Dylai'r amser a dreuliwch yn ateb cwestiwn gyfateb i'r marciau sydd ar gael amdano.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 3

## ASTUDIAETH FANWL 8

## UNO'R EIDAL, tua 1856-1871

*Atebwch* **un** *cwestiwn yn Adran A ac* **un** *cwestiwn yn Adran B.*

### ADRAN A

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

**1. Piedmont ac esgyniad Cavour**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Yn gyntaf, dylai ein polisi tuag at Awstria amcanu at ennill ei hymddiriedaeth. I'r perwyl hwnnw, mae'n rhaid i ni ei gwneud yn amlwg ein bod wedi rhoi'r gorau i'n syniad o ehangu ar draul y taleithiau hynny yn yr Eidal sy'n perthyn i Ymerawdwr Awstria. Unwaith y byddwn wedi rhoi heibio unrhyw syniad o ehangu anghyfreithlon ar draul Awstria, byddwn wedi cael gwared â'r prif achos sy'n rhwystro sefydlu perthynas agored rhwng y ddau Lys, ac yna gallwn ystyried Awstria fel unrhyw bŵer arall. Eto bydd gwahaniaeth mawr o ran cryfder yn parhau rhyngom ac Awstria am byth, a dylai hynny ein rhybuddio rhag y genfigen y gall cymydog pwerus ei chodi mewn gwladwriaeth o'r ail ddosbarth fel ein hun ni. Mae'n rhaid i ni sylweddoli nad ar faint ei thiriogaethau y mae urddas a bri unrhyw wladwriaeth yn dibynnu ond yn hytrach ar ei hannibyniaeth a'r ffordd mae'n amddiffyn yr annibyniaeth honno. Mae gennym ein rhagoriaethau ein hunain. Gadewch i ni fodloni arnynt. Yr hyn sy'n bwysig i Piedmont yw ei bod yn ei chadw ei hun yn hollol annibynnol ar Awstria. Felly y bydd yn gwasanaethu fel esiampl i wladwriaethau eraill yr Eidal; gan y bydd gweddill yr Eidal yn ennill nerth a bri o ymagweddiad ar ein rhan ni sydd heb fod yn gwerylgar na thrahaus, ond yn urddasol a bonheddig.'

[Y Cownt Solaro della Margarita, cyn Weinidog Tramor Piedmont ac arweinydd yr wrthblaid i Cavour yn y Senedd, yn ysgrifennu yn ei nodiadau gwleidyddol (1854)]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr yr ymadrodd 'y taleithiau hynny yn yr Eidal sy'n perthyn i Ymerawdwr Awstria' (llinell 3). [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am y berthynas rhwng Awstria a Piedmont? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall Piedmont ac esgyniad Cavour? [20]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*

**2. Uno'r Eidal yn derfynol, 1861-1871**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Mae'n bosibl ystyried sefydlu'r wladwriaeth newydd yn 1861 yn fwy fel ehangu Piedmont nag uno'r Eidal. Yn wir Torino, prifddinas Piedmont, a ddaeth yn brifddinas yr Eidal. Er i Cavour barhau i gadarnhau ei fwriad i gyflwyno llywodraeth ranbarthol, ni wnaeth hynny erioed. Daeth yr Eidal o ganlyniad yn wladwriaeth unedol yn hytrach na gwladwriaeth ffederal. Roedd yr etholfraint *(electoral franchise)* yn gyfyngedig iawn ac er bod y gyfundrefn lywodraethol yn gynrychiadol, roedd felly ymhell o fod yn gyfundrefn ddemocrataidd lawn. Yn gefn i'r wladwriaeth unedol yr oedd dull Piedmont o weinyddu, dull a seiliwyd ar esiampl Ffrainc ac felly'n ganoledig iawn. Mewn gwlad â thraddodiad maith o annibyniaeth leol, roedd hynny'n mynd yn groes i'r graen. Roedd y canoli hwnnw'n gwneud sefydlu ymwybyddiaeth o undod cenedlaethol hyd yn oed yn fwy anodd. Roedd hynny'n arbennig o wir yn y de, lle nad oedd llawer o bobl a allai uniaethu â'r bobl a'r llywodraeth o'r gogledd. Roedd yn well ganddynt hwy Garibaldi, ond roedd yntau wedi dychwelyd i'w encilfan *(retreat)* ar ynys Caprera. At hynny, roedd polisïau Piedmont yn cael effaith andwyol yn aml ar y de, fel y digwyddodd pan gafodd y tollau eu gostwng a dechreuodd nwyddau lleol golli eu lle yn wyneb mewnforion o weddill yr Eidal. Achosodd hynny "Ryfel y Brigandiaid". Wrth i'r rhyfel hwn barhau yn y de, roedd gweddill yr Eidal yn cael anhawster ymdopi â'r dull Piedmontaidd o lywodraethu a orfodwyd arnynt.'

[Peter Browning, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu yn *Revolutions and Nationalities* (2000)]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr yr ymadrodd 'yr etholfraint' (llinell 5). [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am Deyrnas newydd yr Eidal yn 1861? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall uno'r Eidal yn derfynol, 1861-1871? [20]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*

CYDNABYDDIAETH
Cyhoeddwyd y darn hwn gyda chaniatâd caredig Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

## ADRAN B

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

### 3. Garibaldi ac uno'r Eidal, 1859-1871

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Cyhyd ag y byddai garsiwn Ffrainc yn aros yn Rhufain, ni allai llywodraeth yr Eidal fforddio ymosod ar y cadarnle olaf hwn o awdurdod y Pab. Yn lle hynny, rhoddodd Rattazzi, pan oedd yn Brif Weinidog, ganiatâd cyfrinachol i Garibaldi i recriwtio gwirfoddolwyr a gorymdeithio i Rufain. Yn 1862, cyn gynted ag y daeth yn amlwg nad oedd mudiad Garibaldi'n llwyddo, newidiodd Rattazzi ei feddwl ac anfonodd filwyr yn ei erbyn.'

[Denis Mack Smith, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu yn *The Making of Modern Italy, 1796-1866* (1968)]

Ffynhonnell B

'Lle mae unrhyw ddrygioni'n mynd yn ei flaen yn Ewrop, rydym yn eithaf sicr cyn hir o glywed am Joseph Mazzini. Ni fyddai'n unol â'i natur pe na fyddai'n ymddangos yn awr, â'i wlad mewn cyfyng gyngor, i daenu gwenwyn o gwmpas, i droi cyfeillion yr Eidal yn ei herbyn, ac i chwerwi ei gelynion. Does neb yn amau mai Mazzini oedd wrth wraidd yr ymgyrch hon yn erbyn Rhufain.'


[Antonio Gallenga, aelod o Senedd yr Eidal, yn ysgrifennu yn *The Times*, papur newydd o Brydain (1862)]

Ffynhonnell C

'Dyw Garibaldi ddim eisiau, ac ni allai chwaith, wrthwynebu'r Brenin, neu byddai'r rhan fwyaf o'i filwyr a mwyafrif llethol o'r wlad yn troi yn ei erbyn. Mae popeth yn dibynnu a fydd yn ildio o'i fodd ynteu o'i anfodd.'

[Cavour, mewn llythyr at Farini, gweinidog yng ngwasanaeth y Pab Pius IX, yn Ancona (8 Hydref 1860)]

Ffynhonnell CH



[Cartŵn o'r cylchgrawn dychanol o Brydain, *Punch*, dan y teitl, 'The Man in Possession' (Hydref 1860). Garibaldi a Victor Emmanuel yw'r ddau gymeriad.]

Ffynhonnell D

'Yn 1867, cododd Garibaldi fyddin arall o wirfoddolwyr. Croesodd y ffin heb ymyrraeth oddi wrth awdurdodau'r Eidal, a llwyddodd ar y dechrau i drechu lluoedd y Pab. Ond daeth ymateb cyflym o du llywodraeth Ffrainc, wrth iddi anfon byddin yn ôl i Rufain wedi'i harfogi â'r reifflau bôn-lwythol *(breech-loading)* newydd. Ym mis Tachwedd 1867, cafodd Garibaldi ei orchfygu gan y Ffrancwyr ym mrwydr Mentana.'

[H. Hearder, hanesydd yn ysgrifennu mewn llyfr cyffredinol ar hanes Ewrop, *Europe in the Nineteenth Century 1830-1880* (1966)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau A a B. Sut mae Ffynonellau A a B yn dangos safbwyntiau cyferbyniol am pwy oedd yn gyfrifol am yr alldaith *(expedition)* yn erbyn Rhufain yn 1862? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau C ac CH. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau C ac CH fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio'r berthynas rhwng Garibaldi a Victor Emmanuel yn 1860? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall Garibaldi ac uno'r Eidal, 1859-1871? [24]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*

**4. Y trafodaethau rhwng Ffrainc a Piedmont a'r rhyfel yn erbyn Awstria, 1859**

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Byth er cyhoeddi llythyr Orsini, bu'r gobeithion yn tyfu y bydd Ffrainc yn fodlon cynorthwyo achos yr Eidal. Nawr, clywyd rhai'n darogan y bydd milwyr Ffrainc yn ymosod ar Awstria o un ochr, tra bydd byddin fechan Victor Emmanuel yn dial am fethiant nas anghofir yn erbyn gelyn sy'n atgas ganddi ac felly'n cydweithredu i ryddhau Lombardia.'

[Dyfyniad o'r papur newydd o Brydain, *The Times* (2 Awst 1858)]

Ffynhonnell B

'Peidiwch ag anghofio'r diolchgarwch sydd arnom i Napoleon III ac i fyddin Ffrainc, gan fod cymaint o'i meibion dewr wedi cael eu lladd a'u hanafu dros achos yr Eidal.'

[Ymateb uniongyrchol Garibaldi i Heddwch Villafranca, 12 Gorffennaf 1859,
cyn iddo glywed am ildio Nice a Savoy]

Ffynhonnell C

'Ni fydd y cytundeb hwn yn cael ei weithredu. Os bydd rhaid, byddaf yn gafael yn llaw Mazzini. Byddaf yn mynd yn gynllwynwr. Byddaf yn mynd yn chwyldröwr. Ond ni fydd y cytundeb yn cael ei weithredu. Na! Milwaith na! Byth bythoedd!'


[Ymateb uniongyrchol Cavour i Heddwch Villafranca, yn ôl y cofnod gan Louis Kossuth,
y chwyldröwr o Hwngari (14 Gorffennaf 1859)]

Ffynhonnell CH

'Hyd yn hyn, cymedroldeb fu'n rheoli fy ymddygiad; nawr mae cynnal polisi ymosodol wedi dod yn ddyletswydd arnaf. Gadewch i Ffrainc ei harfogi ei hun a datgan yn benderfynol wrth Ewrop: "Nid concwest rydym yn ei ddymuno, ond rydym yn benderfynol o gynnal yn ddiysgog ein polisi cenedlaethol a thraddodiadol tuag at yr Eidal. Pwrpas y rhyfel hwn yw adfer yr Eidal iddi hi ei hun." '

[Napoleon yn cyhoeddi ei esboniad pam roedd ar fin ymyrryd yng nghwestiwn yr Eidal, mewn cylchgrawn o Ffrainc, *Le Moniteur* (4 Mai 1859)]

Ffynhonnell D



THE FRENCH PORCUPINE.
He may be an Inoffensive Animal, but he Don't Look like it.

[Cartŵn o'r cylchgrawn dychanol o Brydain, *Punch*, dan y teitl 'Y Ballasg *(Porcupine)* Ffrengig', sef cyfeiriad at honiad Napoleon fod 'Yr Ymerodraeth mewn Heddwch' (Chwefror 1859)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau B ac C. Sut mae Ffynonellau B ac C yn dangos ymatebion cyferbyniol i Heddwch Villafranca 1859? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau CH a D. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau CH a D fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio Napoleon III a'r rhyfel yn erbyn Awstria yn 1859? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall y berthynas rhwng Ffrainc a Piedmont a'r rhyfel yn erbyn Awstria, 1859? [24]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*